Arolwg o'r Beibl

Cyflwyniad i gyfres newydd

Mae dwy ffordd o drafod mochyn cwta. Naill ai ei anwesu, neu ei ddiberfeddu mewn labordy er mwyn dadansoddi a labelu gwahanol ddarnau o'i gorff! Y ffordd gyntaf yn ddi-os yw'r ffordd fwyaf pleserus, ond o ddeall moch cwta yn fanylach gallwch ofalu amdanynt yn well. Mae'r un peth yn wir am ddarllen y Beibl. Rhaid ei ddarllen yn gyson er mwyn cael budd ysbrydol, her neu gysur, ond mae lle i'w ddadansoddi a deall y gwahanol adrannau. Bydd cael golwg eang ar gynnwys a rhaniadau'r Beibl yn help i ni ei gymhwyso'n gywir ac elwa arno wrth ei ddarllen.

Dyma ddechrau, felly, ar gyfres fydd yn ceisio dadansoddi gwahanol adrannau'r Beibl. Beth am fynd ati i gasglu'r tudalennau a gyhoeddir yn *Y Cylchgrawn* dros y ddwy flynedd nesaf?

Mae yn y Beibl sawl adran. Yn y gyfres hon rhoddir cipolwg ar bob adran yn ei thro. Defnyddiwch y siart isod i ymgyfarwyddo â'r adrannau hyn.

Dwy ran sydd i'r Beibl – yr Hen Destament, sef y 39 llyfr a ysgrifennwyd cyn dyfodiad Crist, a'r Testament Newydd, 27 llyfr a ysgrifennwyd ar ôl iddo ddod. Mae 4 adran amlwg yn yr Hen Destament: cyfraith, hanes, doethineb a phroffwydi. Tueddir i rannu'r Testament Newydd yn 3 rhan: hanes, llythyrau Paul a'r llythyrau cyffredinol.

Er bod i'r Beibl wahanol adrannau sy'n amrywio o ran eu pwyslais a'u harddull, rhaid nodi o'r dechrau eu bod yn gyson eu neges. Nid oes gwrthddweud rhyngddynt. Yr un Ysbryd Glân sydd wedi ysbrydoli pob un, ac ynddynt ceir sawl golwg ar yr un brif neges ganolog, sef y ffordd at Dduw trwy Iesu Grist. Bydd amrywiaeth yr arddull a'r cynnwys o gymorth ar wahanol adegau. Diben cyfreithiau yw dysgu beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, yn yr hanesion rhoddir esiamplau inni, trwy farddoniaeth mynegir ein serchiadau a'n profiadau, a thrwy'r pregethau cawn gysur neu her. Yn y Gair mae pethau hawdd ac anodd. Ys dywed rhywun, mae digon o le i ŵyn wlychu eu traed yn ddiogel ac i eliffantod nofio! Ymlaen â ni, felly, i ddarganfod rhagor o ddyfnderoedd Gair Duw.

Derrick Adams

Mae Derrick Adams yn weinidog ar Eglwys Efengylaidd Gymraeg Aberystwyth.

Y BEIBL		Cynnwys		Arddull	Neges
	YR HEN DESTAMENT	**CYFRAITH** 5 LLYFR MOSES	Genesis – Deuteronomium	Rhyddiaith Hanes Cyfreithiau Pregethau	Sylfaen Cyflwr dyn Cymeriad Duw Pobl Dduw Gofynion Duw
		HANES 12 LLYFR	Josua – Esther	Rhyddiaith Hanes	Ymwneud Duw â'I bobl trwy hanes. Esiamplau i'w dilyn neu i'w hosgoi
		DOETHINEB 5 LLYFR	Job – Caniad Solomon	Barddoniaeth	Help i ddeall, lleisio a dyfnhau holl amrywiaeth profiadau a serchiadau ysbrydol. Gweddi a mawl.
		PROFFWYDI 5 Mwyaf 12 Lleiaf	Eseia – Malachi	Barddoniaeth Rhyddiaith Pregethau	Pregethu gair Duw i'w hoes. Her a chysur.
	Y TESTAMENT NEWYDD	**HANES** 4 Efengyl 1 Llyfr yr Actau	Mathew – Actau	Rhyddiaith Hanes	Golwg clir ar Iesu a'r Eglwys Fore.
		LLYTHYRAU PAUL 13 Epistol	Rhufeiniaid – Philemon	Rhyddiaith Pregethau	Cymhwyso'r gwirionedd i'r Eglwys.
		LLYTHYRAU CYFFREDINOL	Hebreaid – Datguddiad	Rhyddiaith Pregethau	Cymhwyso'r gwirionedd I'r Eglwys. Datguddiad: Arolwg barddonol o hanes holl ymwneud Duw â dyn.